| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Dirprwy Reolwr (Cofrestredig) Preswyl – Plant |
| Cyfarwyddiaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant |
| Yn atebol i’r | Rheolwr Gwasanaethau, Adnoddau a Gwasanaethau Rheoledig |
| Lleoliad | Y Dderwen, yr Wyddgrug |
| Cyfeirnod Swydd / Rhif Adnabod | |

**Pwrpas y Swydd**

Cefnogi’r Rheolwr Preswyl i reoli cartref plant cofrestredig Arolygiaeth Iechyd Cymru o ddydd i ddydd, fydd yn gartref hirdymor preswyl i hyd at bedwar o bobl ifanc o 8 i 17 oed.

Byddwch yn ymrwymo i sicrhau bod pob person ifanc yn ein gofal yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu yn eu haddysg, diddordebau a pherthnasau. Byddwch yn gweithio gyda’r tîm i ganolbwyntio ar fyd cyfan ein pobl ifanc.

Byddwch yn cefnogi’r Rheolwr Cofrestredig i reoli tîm o tua 9 aelod o staff cefnogi ac yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o ofal proffesiynol yn cael eu hyrwyddo a’u cynnal a bod y cartref yn cael ei redeg yn unol â Rheoliadau Cartrefi Plant Cymru, deddfwriaeth AGC a’r safonau ansawdd.

**Prif Gyfrifoldebau**

Sicrhau bod y cartref yn gweithredu’n unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a deddfwriaeth berthnasol arall.

Sicrhau bod polisïau a’r Datganiad o Ddiben yn cael eu hadolygu a’u diwygio o leiaf unwaith y flwyddyn a bod cofnodion swyddogol yn cael eu cadw yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r adran, gan gydymffurfio â chanllawiau AGC/deddfwriaeth.

Cyfrannu at a darparu asesiadau cynhwysfawr i’w defnyddio i gynllunio gofal ar gyfer plant preswyl, ac i ddatblygu pecynnau llety ar gyfer plant, gan gynnwys rhoi cyfarwyddyd a goruchwylio staff i weithredu’r Cynllun Gofal.

Meithrin, cynnal a chefnogi ymagwedd adferol ac sy’n canolbwyntio ar ddatrysiad gyda phlant, pobl ifanc a chydweithwyr, a sicrhau bod staff y ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a’u teuluoedd a bod hawliau’r plentyn unigol yn cael eu diogelu a’u hyrwyddo.

Sicrhau iechyd a diogelwch y plant a’r staff trwy gynnal ac adolygu asesiadau risg, a chynorthwyo i gynnal amgylchedd byw cadarnhaol i’r holl breswylwyr.

Bod yn rhan o system o Weithwyr Allweddol o fewn y ganolfan sy’n sicrhau bod aelodau unigol o staff yn derbyn cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer cynllunio gofal plentyn unigol. Bydd gweithwyr allweddol yn cymryd cyfrifoldeb am gydlynu anghenion lleoliad y plentyn.

Goruchwylio a chefnogi tîm y staff o ddydd i ddydd a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i’r Rheolwr. Llunio rotas wythnosol a darparu’r gofal angenrheidiol i’r plant yn ddyddiol, gan sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn unol â Rheoliadau Cartrefi Plant Cymru, deddfwriaeth AGC a safonau ansawdd.

Sicrhau bod y tîm craidd o staff preswyl a gweithwyr preswyl achlysurol yn cael eu goruchwylio yn unol â’r amlder a nodwyd yn y cynllun gweithredu.

Gweithio gyda chydweithwyr o feysydd gwasanaeth amlasiantaeth a sefydliadau eraill i ddarparu a chynnal amgylchedd byw a dysgu diogel sy'n hyrwyddo diogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc. Byddwch yn meithrin, cynnal a chefnogi ymagwedd adferol ac sy'n canolbwyntio ar ddatrysiad gyda phlant, pobl ifanc a chydweithwyr.

Rheoli arian mân yn absenoldeb y Rheolwr.

Gweithredu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod a'r Adran bob amser.

Ymgymryd â dyletswyddau cysgu i mewn a gweithio oriau anghymdeithasol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r Rheolwr yn eu dyletswyddau dydd i ddydd a bydd ganddynt hefyd gyfrifoldeb am reolaeth gyffredinol yn absenoldeb y Rheolwr. |
| **Gwiriadau Cyflogaeth/Gofynion Penodol h.y. y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.<br>Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd<br>Mae angen i'r deiliad swydd gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. |

| **Manylion am yr Unigolyn** | | |
|---|---|---|
| Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'i defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol. | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, neu barodrwydd i'w astudio a'i gwblhau o fewn 6 mis. | Dymunol | Ffurflen Gais |
| Neu gyfwerth gan gynnwys:<br>NVQ 4 Arweinyddiaeth a Rheoli ar gyfer Gwasanaethau Gofal<br>NVQ4 Rheoli<br>Cymhwyster Rheolwr Cofrestredig NVQ Lefel 4<br>NVQ Lefel 4 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc)<br>NVQ 4 Gofal | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Prawf o brofiad o weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal sy'n gorfod cynnwys profiad blaenorol o oruchwylio staff. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth am y deddfwriaethau cyfredol, yn cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth o blant gydag anghenion cymhleth ac anghenion eu teuluoedd / gofalwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| | | |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau rheoli tîm ac arweinyddiaeth | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad / Asesiad |
| Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Gallu gweithio dan bwysau i gasglu gwybodaeth yn gyflym ac i wneud penderfyniadau brys. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau Datrys Problemau | Hanfodol | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Creadigrwydd, gallu datblygu ffyrdd newydd o weithio. | Hanfodol | |
| **Gwerthoedd** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Canolbwyntio ar yr unigolyn | | Cyfweliad |
| Rheolwr cefnogol | | Cyfweliad |
| Cyson | | Cyfweliad |
| Yn Greadigol | | Cyfweliad |
| Angerddol dros ein gwasanaethau. | | Cyfweliad |
| Gallu addasu | | Cyfweliad |